

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion o gyfarfod gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair D.C. nos Fercher 6ed o Fai 2015 am 7.00Y.H.

Yn bresennol – Cynghorwyr Keith Mouldsdaie (Cadeirydd), Gwyneth Griffiths, Wini Davies, Medwen Roberts, John Pugh, Dennis Edwards, Tim Faire, David Baker.
Mr Tim Towers—Swyddog Priffyrdd— Cyngor Sir Ddinbych.
Preswylwyr -David Greenhalgh, Ian Fleming a'r Clerc.

RHAN 1

YMDDIHEURIADAU-Dim

162. COFNODION

Cofnodion o gyfarfod gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor ar 4ydd o Fawrth 2015 a ddsbarthwyd yn flaenorol.

Fe awgrymodd y Cynghorydd John Pugh, er yn absennol o'r cyfarfod diwethaf, y dylid addasu geiriad y cofnodion. Teimlai y dylai ddarllen fod awgrymiad fod Cat 2 yn israddiad o Cat 1, pan mewn gwirionedd roedd y ddau yn gyfartal.
Nododd yr Aelodau ei sylwadau.

PENDERFYNIAD – Cymeradwywyd ac arwyddwyd y Cofnodion gan y Cadeirydd.

163. MATERION YN CODI-

Sylw y Cynghorwr John Pugh a nodwyd eisoes.

164. CYFLWYNIAD GAN TIM TOWERS – SWYDDOG PRIFFYRDD – CYNGOR SIR DDINBYCH

Fe groesawodd y Cadeirydd Mr Towers i drafod materion priffydd cysylltiedig ag ardal y Cyngor Cymunedol.

Fe atgoffodd yr aelodau ei fod wedi derbyn ceisiadau am welliannau ffordd ac roedd yn falch o'u cynghori o'r datblygiadau canlynol.

- (a) Roedd yr A525 wedi ei dosbarthu fel prosiect cyfalaf a'r darn o ffordd dan sylw o'r briffordd tuag at Wrecsam wedi ei rhaglennu i gael ei ailarwynebu gan gychwyn Gorffennaf 2015.
- (b) Byddai gwaith ailarwynebu'r ffordd o'r A494 hyd croesffordd Eyarth yn cychwyn o fewn y mis.
- (c) Byddai'r gwaith o ailarwynebu'r brifordd o'r A525 i'r B5429 yn cychwyn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Nid oedd yn gallu rhoi dyddiad ar gyfer pryd fyddai'r gwaith yn digwydd.

Fe eglurodd Tim y Rhaglen Gyfalaf a Gritio Eira ar gyfer 2015/16 ac fe nododd y cyfyngiadau ariannol roedd yn wynebu ar ariannu.

Dros y 4 blynedd diwethaf, roedd yr ariannu wedi cynyddu gyda Llywodraeth Cymru yn rhoi £2m ychwanegol dros y 3 mlynedd diwethaf. Roedd nawr yn gweithio ar gyllideb is, i lawr i £1.6m ar gyfer 2015/16 a 2016/17.

Fe nododd ei fod yn gorfod cydbwysu ei gyllideb cynnal a chadw'r gaeaf o fewn cyfyngiadau Refeniw/Cyfalaf.

Cynghorwyd aelodau fod pob adran o fewn CSDd yn derbyn gostyngiadau o fewn eu cyllidebau oherwydd llai o arian gan y llywodraeth. Roedd hyn yn effeithio gritio gaeaf yn enwedig oedd yn wynebu gostyniad o 10%.

Roedd blaenoriaeth yn ei cael ei rhoi i eira bob amser gyda rhew yn llai o flaenoriaeth. Rhoddwyd manylion o'r pedwar cam o benderfynu pa weithred oedd i'w blaenoriaethu wrth benderfynu pa rannau o'r briffordd oedd angen atgyweirio.

Nododd fod y Cynghorwyr Sir bob amser yn ymladd am fwy o arian ar gyfer cynnal ffyrdd, yn enwedig rhai o ogledd y sir, oedd yn nodi fod ganddynt fwy o filltiroedd o briffyrdd.

Fe gymerodd Tim gwestiynau gan aelodau oedd yn pwysleisio eu pryderon ar amryw o faterion priffyrdd o fewn ardal y Cyngor Cymunedol.

Yn dilyn trafodaeth llawn gwybodaeth, fe ddiolchodd y Cadeirydd i Tim am ei bresenoldeb a'i gyflwyniad.

165. SYLWADAU'R CADEIRYDD WRTH YMDDEOL

Fe ddiolchodd y Cadeirydd yn gyntaf i'w gyd-aelodau ac i'r Clerc am eu cefnogaeth yn ystod ei flwyddyn yn y swydd. Roedd ceisiadau cynllunio yn dal i gael eu derbyn mewn rhifau da a'r cyflwyniad gan Angela Loftus ar y datblygiad arfaethedig ar y tir gyferbyn y neuadd bentref.

Mater pwysig arall yn ei dymor yn y swydd oedd cau y ddwy ysgol ac adeiladu ysgol newydd. Fe nododd hefyd ar weithrediad/uchraddiad araf y wefan newydd a gobeithiai y byddai'n gwbl weithredol yn ystod 2015/16. Gallai adrodd fod arian mewn trefn dda ac roeddem wedi derbyn tystysgrif archwiliad gan yr archwilwyr.

166. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2015/16

F atgoffodd y Clerc yr aelodau, yn y blynyddoedd blaenorol, ei fod wedi bod yn arfer i gynnig yr Is-Gadeirydd i gymryd awenau'r Gadair, ond gan fod y Cynghorydd Steve Collis yn sefyll i lawr yn ystod 2014/15, ni fyddai hyn yn codi ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Fe gynigiodd y Cynghorydd John Pugh gyda'r Cynghorydd Tim Faire yn eilio fod y Cynghorydd Keith Mouldsdale yn parhau yn ei swydd fel Cadeirydd y Cyngor Cymuned ar gyfer 2015/16. Cytunodd pawb yn unfrydol gyda hyn.

Cwblhawyd y Datganiad o Dderbyn Swydd gan y Cynghorydd Mouldsdale a'r Clerc.

167. ETHOL IS GADEIRYDD AR GYFER 2015/16

Cynigiodd y Cynghorydd Medwen Roberts, eiliwyd gan y Cynghorydd Tim Faire fod y Cynghorydd Gwyneth Griffiths yn cael ei hethod yn Is-Gadeirydd ar gyfer 2015/16. Cytunwyd yn unfrydol.

168. DYDDIADAU AC AMSEROEDD CYFARFODYDD

Cytunwyd yn unfrydol y dylai'r cyfarfodydd barhau i gael eu cynnal bob dau fis ar ddydd Mercher cyntaf y mis gan gychwyn am 7yh. Byddai cyfarfod cyntaf bob blwyddyn ariannol ym mis Mai. Mae'r manylion wedi eu nodi yn y Rheolau Sefydlog.

169. SWYDDI GWAG CYNGHORYW AR Y CYNGOR CYMUNEDOL

Fe hysbysodd y Clerc yr aelodau o'r gweithdrefanu gymerwyd i lenwi'r ddwy sedd wag. Yn dilyn hysbysu'r Swyddog Canlyniadau yng Nghyngor Sir Ddinbych, roedd wedi hysbysebu'r swyddi gwag o fewn ardal y Cyngor Cymunedol lleol. Hysbysodd yr aelodau ei fod wedi derbyn dau gais i lenwi'r swyddi gwag.

Mrs Jayne Mayers

Pennant

Pentrecelyn

Rhuthun

LL15 2HF

a

Mr Steve Whipp

Pen Yr Ardd

Ffordd Wrecsam

Llanfair D.C.

Rhuthun

L115 2RU

Darllenodd y Clerc lythyrau cais yr ymgeiswyr.

Cytunwyd yn unfrydol fod y ddau ymgeiydd yn cael eu cyd-ethol fel aelodau newydd o'r Cyngor Cymunedol.

Gofynnwyd i'r Clerc hysbysu'r ddau ymgeisydd o'r penderfyniad wnaed a byddai gwahoddiad iddynt fynychu cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymunedol lle byddai gofyn iddynt arwyddo Datganiad o Dderbyn Swydd.

170. **GOHEBIAETH**

170.1 Mynediad at wybodaeth ar Gynghorau Cymunedol a Thref. Mae'r ddogfen hon gan Llywodraeth Cymru yn amlinellu o dan Adran 55 o Ddeddf Llywodreth Lleol Cymru (Democratiaeth) 2013. Mae Adran 55 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i wneud gwybodaeth benodol ar gael yn electroneg.

Ystyriodd y Clerc y dylid trafod y ddogfen hon ymhellach yn y cyfarfod nesaf a gofynnodd i'r aelodau ddod a chopiau gyda nhw.

170.2 Dau lythyr gan Darren Milla AC am Wasanaethau Mamolaeth yng Ngogledd Cymru.

170.3 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Canllawiau Adolygedig ar God Ymddygiad. Hysbysodd y Clerc yr aelodau y byddai'n mynychu cyfarfod yn Neuadd y Sir ar 19eg o Fai 2015 ar y pwnc.

170.4 Hysbysodd y Clerc yr aelodau ei fod wedi derbyn ebost gan Mr David Hislop (Pwyllgor Rheoli Neuadd y Pentref) yn gofyn pe byddai'r Cyngor Cymunedol yn ystyried cysylltu'r ddau safle.

170.5 Awgrymwyd anfon llythyrau o ddiolch i'r ddau aelod oedd yn ymddeol sef Dewi Vaughan Jones a Steve Collis am eu cyfraniadu a gwasanaeth i'r Cyngor Cymunedol.

PENDERFYNIAD- Gohebiaeth a sylwadau'r Clerc i'w nodi.

Cofnod 170.1 Ychwanegu'r eitem yma ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Cofnod 170.4 I'r Cyngor Cymunedol gael dolen gyda gwefan Pwyllgor Rheoli'r Neuadd Bentref. .

Cofnod 170.5 Llythrau i'w hanfon i'r ddau Gyngorwr Cymunedol oedd yn ymddeol.

171. **CYNLLUNIO**

171.1 Cais 20/2015/0301

Estyniad o ardal decio – Pen y Fan – Graifgechan – Rhuthun

Ystyriwyd y cais gan y Cadeirydd a'r Cyngorwyr Wini Davies a Dennis Edwrds.

Cefnogodd yr aelodau y cais yn llawn.

PENDERFYNIAD- Cadarnhau'r weithred i'w cymryd gan y Cadeirydd a chyd Gyngorwyr.

171.2 Cais 20/2015/0144

Adeiladu sied da byw, storfa ddiogel, gadarn ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau (cais ôl-weithredol) – tir wrth Ty'r Wennol, Llanfair DC, Rhuthun.

Ni chododd yr aelodau unrhyw bryderon am y cais.

PENDERFYNIAD-cefnogwyd y cais yn llawn gan yr aelodau.

172. **PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD**

Adroddodd y Clerc fod ymholiadau yn dal i barhau am y Goffeb Rhyfel yn y pentref.

RHAN 2

173. **CYLLIDEB**

173.1 Fe gyflwynodd y Clerc y fantolen derfynol ar gyfer 2014/15 i'r aelodau oedd i'w chyflwyno i'r archwilwyr allanol. Fe atgoffodd y Clerc yr aelodau o'r manylion perthnasol oedd yn gofyn i'r Cadeirydd ag ef (Swyddog Cyllideb Cyfrifol) arwyddo'r cyfrifon blynyddol cyn eu cyflwyno i'r archwilwyr.

PENDERFYNIAD-Fod y Cadeirydd a'r Clerc yn derbyn awdurdod i arwyddo'r cyfrifon blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddaeth i ben 31ain o Fawrth 2015 a'u hanfon ymlaen i'r archwilwyr allanol.

173.2 Fe basiodd y Clerc gyfrifon ariannol y flwyddyn ddaeth i ben 31ain o Fawrth 2015 i'r aelodau ar gyfer y Cyfrifon Cyffredinol a Busnes.

Yn dilyn derbyn un taliad 'precept' yn unig ar ddiwedd Ebrill, nid oedd wedi paratoi mantolen fer ar gyfer y cyfnod o 1af o Ebrill 2015 hyd 30ain o Ebrill 2015.

Hysbysodd yr aelodau nad oedd sic oedd yn daladwy am £100 i Eisteddfod Ryngwladol Llangollen wedi clirio eto.

PENDERFYNIAD- Diolchwyd i'r Clerc am y cyfrifon ariannol a phenderfywyd canslo'r sic am y swm uchod. .

173.3 Cyflwynwyd y cyfrifon canlynol am daliad ynghyd â chais am gymorth ariannol.

(a) Mr Gwyn Davies—Ffi Archwiliad Mewnol --£60

(b) Capel Ebenezer

RPENDERFYNWYD –Talu'r swm a nodwyd.

Yn dilyn cynnig gan y Gadair, eiliwyd gan y Cyngorwr Tim Faire, fod rhodd o £200 yn cael ei roi i Gapel Ebenezer.

Ni chymerodd y Cyngorydd John Pugh ran mewn unrhyw drafodaeth na phleidleisio ar y rhodd ariannol.

174. YSWIRIANT Y CYNGOR

Fe adroddodd y Clerc, fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd wedi bod yn bolisi'r Cyngor Cymunedol i drafod gyda'r cwmni yswiriant ar adnewyddu premiwm.

Roedd y Clerc yn falch o adrodd ei fod wedi trafod gyda Came & Co am breimiwm is ar gyfer 2015/16 nag a dalwyd yn 2014/15. Roedd premiwm 2014/15 yn £499.88 a phremiwm arfaethedig ar gyfer 2015/16 yn £400.68.

Cynigiodd fod yr aelodau yn derbyn y ffigwr newydd. Byddai'r polisi yn cychwyn ar 1af o Fehefin. Roedd eisoes wedi cynghori'r Cadeirdd o'r ffigyrau.

PENDERFYNIAD-Derbyn y premiwm is gan Came & Co. a diolch i'r Clerc am ei waith ar y mater.

**175. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O ASESIAID RISG A RHEOLAU MEWNOL
ADOLYGIAD BLYNYDDOL O REOLAU SEFYDLOG
ADOLYGIAD BLYNYDDOL O REOLAU ARIANNOL**

Roedd y Clerc wedi dosbarthu adroddiadau i'r aelodau ar yr uchod i'w hystyried.

Ystyriodd y Clerc yr adroddiadau yn fanwl a chytuno'n unfrydol eu bod yn foddhaol.

PENDERFYNIAD-Diolch i'r Clerc am yr adroddiadau manwl, eu gweithredu a'u hadolygu'n gyson.

176. Dyddiad y cyfarfod nesaf NEUADD ELEANOR AR DDYDD MERCHER 1AF O ORFFENNAF 2015 AM 7 YR HWYR.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.

_____CADEIRYDD

_____DYDDIAD

**CYNGOR CYMUNED
LLANFAIR DYFFRYN CLWYD
COMMUNITY COUNCIL**

Cofnodion o gyfarfod gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair DC ar nos Fercher, 1af o Orffennaf 2015 am 7 yr hwyr.

Yn bresennol- Cyngorwyr Keith Mouldsdales (Cadeirydd), Gwyneth Griffiths (Is-Gadeirydd), John Pugh, Jayne Mayers, Medwen Roberts, Stephen Whipp, Wini Davies, Tim Faire a David Baker.

Preswylwyr David Greenhalgh, Ian Fleming a'r Clerc

RHAN 1

YMDDIHEURIADAU- Cynghorwr Dennis Edwards

177. COFNODION

Cofnodion o gyfarfod gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor ar 6ed o Fai 2015 a ddsbarthwyd yn flaenorol.

PENDERFYNIAD-Cymeradwywyd y cofnodion a'u harwyddo gan y Cadeirydd.

178. MATERION YN CODI

Cododd aelodau bryderon am weithrediad y Ddeddfwriaeth Mynediad at Wybodeth Cynghorau Cymunedol a Thref yn enwedig gwefan y Cyngor Cymunedol a chyfleusterau cyfieithu.

PENDERFYNIAD- Gofynnodd yr aelodau i'r Clerc gysylltu gyda Mr Chris Birchall yngŷn â'r gwaith ar y wefan a gyda'r cyfieithydd yn holi os oedd eisiau parhau i wneud y gwaith cyfieithu i'r Cyngor Cymunedol.

179. CYD-ETHOL CYNGHORWYR CYMUNEDOL

Yn dilyn derbyn ceisiadau Mrs Jayne Mayers a Mr Stephen Whipp yng nghyfarfod mis Mai 2015, roedd y ddau aelod yn bresennol.

Fe arwyddodd y ddau ymgeisydd y Datganiad o Dderbyn Swydd.

Roedd y ddau aelod wedi derbyn y Rheolau Sefydlog, Aseiad Risg Blynyddol, Rheolau Mewnol a Rheoliadau Ariannol eisoes.

180. GOHEBIAETH

180.1 Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o adnewyddiad y Cofrestr Amddiffyn Data.

180.2 Dau lythyr gan Darren Millar AS ar Wasanaethau Mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ac os y gallai fynychu cyfarfod o'r Cyngor Cymunedol.

Fe gynghorodd y Clerc yr aelodau nad oedd Mr Millar wedi gallu mynychu yn y gorffennol oherwydd toriad yr haf ym Mae Caerdydd.

180.3 Fe dderbyniodd y Clerc ebost gan breswlydd lleol (Rose Alison) yn holi os oedd y Cyngor Cymunedol yn rhan o Cadw Cymru'n Daclus.

180.4 Adroddiad Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru. Fe adroddodd y Clerc ei fod wedi mynychu seminar drefnwyd i Glercod gan Cyngor Sir Ddinbych ar ddyletswyddau'r Ombwdsmon a Swyddog Monitro Cyngor y Sir.

PENDERFYNIAD- Nodi'r ohebiaeth a sylwadau'r Clerc.

Cofnod 180.3 Y Clerc i holi'r preswlydd lleol o beth yn union mae'n ofyn.

181. MYNEDIAD AT WYBODAETH I GYNGHORAU TREF A CHYMUNEDOL

Fe nododd y Clerc unwaith eto i'r aelodau y pwysigrwydd o'r Canllaw Statudol newydd a ddaeth i rym ym mis Mai 2015 ac hefyd y goblygiadau ariannol o weithredu'r canllaw

newydd hwn. Gellid ystyried yr ystyriaethau ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 yng nghyfarfod mis Tachwedd pan fyddai'r rheol yn cael ei drafod.

PENDERFYNIAD-Trafod y mater yng nghyfarfod mis Tachwedd.

182. CYNLLUNIO

182.1 Cyngor Sir Ddinbych yn trefnu Gweithdy Cynllunio a Chymru.
Lleoliad – Neuadd Bentref Trefnant —28^{ain} Gorffennaf. Nododd y cynghorydd Medwen Roberts a'r Clerc y byddant yn mynychu.

182.2 Cais 20/2015/0495
Ailgodi ystafell wydr --- Llais Afon – Graigfechan-Rhuthun. Ystyriwyd y cais yma gan y Cadeirydd a'r Cynghorwyr Wini Davies a Medwen Roberts. Cefnogodd yr aelodau y cais yn llawn.

PENDERFYNIAD-Cadarnhau'r weithred i'w chymryd gan y Cadeirydd a chyd Gynghorwyr.

182.3 Cais 20/2015/0447—Codi estyniad un llawr —Penyberth—Pentre Celyn—Rhuthun.
Cafodd y cais ei ystyried gan y Cadeirydd a'r Cynghorwyr David Baker a Tim Faire, cefnogodd yr aelodau y cais yn llawn.

PENDERFYNIAD-Cadarnhau'r weithred i'w chymryd gan y Cadeirydd a chyd Gynghorwyr.

182.4 Cais 20/2015/0462—Codi adeilad amaethyddol —Coleg Cambria—Wrecsam —Llysfasi-Rhuthun
Cafodd y cais ei ystyried gan y Cadeirydd a'r Cynghorwyr John Pugh a Steve Whipp. Cefnogodd yr aelodau'r cais yn llawn.

PENDERFYNIAD-Cadarnhau'r weithred i'w chymryd gan y Cadeirydd a chyd Gynghorwyr.

182.5 Cais 20/2015/0440 a 20/2015/0443
Ailadeiliadu'r wifren uwchben 11kv gyda pholion pren cysylltiedig – tir cyfagos i Pen y Groesffordd – Graigadwywynt – Rhuthn ac ailadeilad gwifren 11kv gyda pholion pren cysylltiedig – tir ym Mhentrecelyn – Rhuthun yn y drefn honno.

PENDERFYNIAD-Cefnogaeth lwyr yr aelodau. Dywedodd y Cynghorydd Mayers fod ei gŵr yn gweithio gydag Ambiwlans Awyr Cymru a nodi fod y gwifrau oedd yn cael eu defnyddio nawr yn wyrdd. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r hofrennydd adnabod gwrthrychau wrth hedfan yn y nos.

182.6 Cais 20/2015/0598, 20/2015/0599, 20/2015/0600, 20/2015/0613 and 20/2015/0614.
Codi adeilad da byw amaethyddol (Cam 1, 2, 3 a 4) ac Adeiladu mynediad newyddi i gerbydau (Cam 5).

PENDERFYNIAD-Cefnogaeth lawn yr aelodau.

182.7 Cais 20/2015/0607—Codi estyniad un llawr cefn a chreu llyn —The Barn—Pentre Coch—Rhuthun.

Fe drafododd yr aelodau'r cais am beth amser. Yn enwedig creu llun. Fe ystyriodd yr aelodau fod y cais presennol yn niweidiol i'r ardal leol oherwydd nad oedd yr asesiad ecolegol yn ysgyried yr effaith o greu llyn ar ddefnyddwyr dŵr eraill yn yr ardal.

PENDERFYNIAD-Ni allai'r aelodau gefnogi'r cais presennol.

182.8 Gyda chaniatâd y Cadeirydd, rhoddodd Mr Fleming gyflwyniad i'r cyfarfod ar ddatblygiad y tir cyfagos i'r A525 gyferbyn â'r Neuadd Bentref. Gofynnodd Mr Fleming i'r aelodau am eu barn ar y Mynediad i Gerddwyr ar y safle. Dosbarthodd gynllun draft yn dangos y mesurau rheoli cyflymder posib a chroesfan wedi ei rheoli posib. Wrth ddod â'r drafodaeth i ben, rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i aelodau nodi eu ymatebion/arswylwadau, sef:

- (A) Heb unrhyw ddewisiadau eraill, byddai'n golygu croesi'r A525 ddwywaith.
- (B) Cytunodd yr aelodau y byddai croesfan i gerddywr yn dda i'r pentref. Byddai hefyd angen goleuadau fflachio cyn y troad o ochr Wrecsam (wrth gofeb y rhyfel)
- (C) Byddai'r groesfan i gerddwyr o fudd i'r preswylwyr ar y safle newydd i gael mynediad i Neuadd y Pentref, Y Ceffyl Gwyn a'r Eglwys.
- (CH)Gostwng y cyfwng cyflymder arfaethedig o 40mya i 30mya.

PENDERFYNIAD-Diolchwyd i Mr Fleming am ei gyflwyniad ac roedd aelodau nawr yn aros am ei gais cynllunio ffurfiol ar gyfer datblygu'r tir dal sylw.

183. **PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD**

Cynghorodd y Clerc yr aelodau o sylwadau wnaed gan y Cynghorwr Steve Whipp am gynnal a chadw'r llwybrau ceffylau, yn enwedig yr un o Ysgol Llanfair DC i fferm Bryn Obwst. Cynghorodd y Clerc yr aelodau o'r ymateb dilynol a dderbyniodd gan Gyngor Sir Ddinbych.

RHAN 2

184. **CYLLID**

184.1 Fe gyflwynodd y Clerc y cyfrifon ariannol ar gyfer y cyfnod rhwng 1af o Ebrill 2015 i'r 30ain o Fehefin i'r aelodau ar gyfer y Cyfrifon Cyffredinol a Busnes. Ers y cyfarfod diwethaf, adroddodd fod siec oedd yn daladwy i'r Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen am £100 wedi ei ddebydu i'r cyfrif. Nid oedd wedi derbyn unrhyw gyfathrebu yn nodi fod y siec coll wedi ei ddarganfod. Ystyriodd y clerch hyn i fod yn anghwrtais iawn.

184.2 Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi derbyn manylion yswiriant gan Came & co ar gyfer 2015/16.

184.3 Cyflwynodd y Clerc gais am gymorth ariannol gan Ysgol Pentrecelyn tuag at gostau trafniadaeth ar gyfer gwersi nofio a phrynu rhisgl i amgylchynu ffram ddringo'r plant ar gae'r ysgol. Gwnaed cynnig gan y Cynghorydd John Pugh, wedi ei eilio gan y Cynghorydd Tim Faire fod taliad o £200 yn cael ei wneud.

PENDERFYNIAD-Diolch i'r Clerc am ei gyfrifon ariannol a'i sylwadau a thalu'r swm nodwyd uchod i'r ysgol.

184.4 Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn ebost gan Ysgol Llanfair yn gofyn am gymorth ariannol tuag at gostau gwersi nofio. Roedd wedi gofyn am fanylion pellach yn enwedig costar ariannol.

184.5 Roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi nodi fod taliadau tuag at wasanaethau'r gyflogres ar gyfer blynyddoedd ariannol 2012/13, 2013/14 a 2014/15 heb gynnwys TAW. Roedd y Clerc yn aros am eglurhad ar y mater

PENDERFYNIAD-Diolch i'r Clerc am ei arsylwadau.

185. Dyddiad y cyfarfod nesaf **NEUADD ELEANOR NOS FERCHER 2IL O FEDI 2015 AM 7YH.**

Gan nad oedd dim rhagor o fusnes, death y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.

_____ CADEIRYDD

_____ DYDDIAD

**CYNGOR CYMUNED
LLANFAIR DYFFRYN CLWYD
COMMUNITY COUNCIL**

Cofnodion o gyfarfod gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair DC ar nos Fercher 2il o Fedi 2015 am 7yh.

Yn bresennol –Cynghorwyr Keith Mouldsdaie (Cadeirydd), Gwyneth Griffiths (Is Gadeirydd), John Pugh, Wini Davies, Steve Whipp, Jayne Mayers, Tim Faire, Dennis Edwards a David Baker.

Preswylwyr - David Greenhalgh, Ian Fleming a'r Clerc.

RHAN I

YMDDIHEURIADAU – Cynghorydd Medwen Roberts a'r Cynghorydd Sir Hugh H Evans OBE.

186. COFNODION

Cofnodion o'r cyfarfod gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor ar 1af o Orffennaf 2015 a ddsbarthwyd yn flaenorol.

PENDERFYNIAD – Cymerdwywyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

187. MATERION YN CODI

Mynegodd aelodau eu pryderon am y wefan a'r diffyg cyfathrebu gan Mr Chris Birchall ar ddiweddarau'r safle i'w boddhad. Roeddynt yn ystyried dod â'r cytundeb ar lafar gyda Mr Birchall i ben ac ystyried edrych am ddylunydd gwefan arall. Gan fod Mr Birchall wedi cael

ei dalu am ei wasanaethau, roedd yr aelodau wedi eu siomi ar y mater hwn. Fe gynghorodd y Clerc yr aelodau y byddai'n gwneud un ymdrech olaf i gysylltu gyda Mr Birchall cyn gwneud ymholiadau ar ddylunydd gwefanau arall. Dywedodd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda Chlerc Cyngor Tref Rhuthun a oedd wedi rhoi enw dylunydd lleol iddo oedd yn diweddarau eu gwefan nhw. Nododd Mr Ian Fleming hefyd ei fod yn adnabod unigolyn allai ymgymryd â'r fath waith. Dywedodd y Clerc fod gan y cyfieithydd waith Mai 2015 a Gorffennaf 2015.

Gwnaeth y Cynghorydd Tim Faire sylw ar osodiad gwifrau pwer uchel o fewn ardal y Cyngor Cymunedol.

Atebodd y Cynghorydd John Pugh gwestiwn roddwyd i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Steve Whipp ar y cyfarfod cynllunio gynhaliwyd yn Nhrefnant ar 28ain o Orffennaf 2015.

PENDERFYNIAD – Rhoi cyfarwyddyd i'r Clerc gysylltu gyda Mr Chris Birchall ar frys parthed y wefan a diweddarau'r aelodau ar ei gynydd a diolch i'r Cynghorydd Tim Faire a John Pugh am eu sylwadau.

188. GOHEBIAETH

Nododd y Clerc fod tri eitem i adrodd arnynt

188.1 Llythyr gan Gyngor Sir Ddinbych ar system caffael electronig newydd.

188.2 Gwahoddiad gan Ty'r Eos i fynychu Gwasanaeth Diolchgarwch ar nos Wener 11eg o Fedi 2015.

188.3 Gofynnodd y Clerc am gymeradwyaeth i fynychu'r cyfarfod nesaf o Gymdeithas Clercod Cyngor Lleol yn Fflint ar 10fed o Fedi 2015.

PENDERFYNIAD-Nodi'r ohebiaeth.

Cofnod 188.2 Dim aelod yn gallu mynychu'r Gwasanaeth.

Cofnod 188.3 Cymeradwyaeth i'r Clerc fynychu.

189. CYNLLUNIO

189.1 Cais 20/2015/0709—Codi estyniad dau lawr —6 Bron Y Clwyd—Llanfair D.C.-Rhuthun.

Cafodd y cais yma ei ystyried gan y Cadeirydd a'r Cynghorwyr Gwyneth Griffiths a Steve Whipp. Cefnogodd yr aelodau y cais yn llawn.

PENDERFYNIAD –Cadarnhau gweithred y Cadeirydd a chyd Gynghorwyr.

190. PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

190.1 Fe gynghorodd y Clerc yr aelodau ei fod wedi cael hysbyseb fod waith arwynebu o'r A525 i'r B5429 wedi derbyn dyraniad o arian yn 2016/17.

190.2 Gwaith o'r A494 hyd Croesffordd Eyarth i'w wneud yn 2015/16. Fe nododd y cynghorydd John Pugh fod peth gwaith wedi cychwyn ond roedd yn ei ystyried yn wastraff arian. Y Clerc i gynghori Cyngor Sir Ddinbych fod yr aelodau yn credu y dylid cynnwys yr A525/B5429 yn 2015/16.

190.3 Gwnaeth y Cynghorydd Steve Whipp sylw ar ddiffyg gweithrediad gan ffarmwr lleol i osod 50 tunnell o siafins ar y llwybr ceffylau o Ysgol Llanfair DC i Fferm Bryn Obwst. Nododd y Cynghorydd John Pugh y gallai drefnu contractwr i wneud y gwaith ac i'r Cyngor

Cymunedol wneud taliad. Roedd y Cynghorydd Steve Whipp yn ystyried hyn i fod yn annerbiniol oherwydd fe ddylai'r mater gael ei setlo rhwng y Cyngor Sir a'r ffarmwr lleol. Fe nododd y Cynghorydd Whipp gyflwr y ffyrdd bach o fewn ardal y Cyngor Cymunedol.

PENDERFYNIAD –Gofynwyd i'r Clerc gysylltu gyda Cyngor Sir Ddinbych am yr amserlen am y gwaith arwynebu ac iddynt gysylltu gyda'r ffarmwr lleol am y llwybr ceffylau. Y Clerc i ystyried cysylltu gyda'r Cynghorydd Sirol Hugh Evans OBE os nad oedd unrhyw weithred yn digwydd.

RHAN 2

191. CYLLIDEB

191.1 Fe gyflwynodd y Clerc gyfrifon ariannol ar gyfer y cyfnod rhwng 1af o Ebrill 2015 hyd 31ain o Awst 2015 ar gyfer y Cyfrifon Cyffredinol a Busnes. Dywedodd fod sic am £200 oedd yn daladwy i Ysgol Pentrecelyn heb ei glirio yn y banc eto ac roedd wedi cysylltu gyda'r ysgol ar y mater hwn.

191.2 Fe ymddiheurodd y Clerc i'r aelodau ei fod wedi anghofio cynnwys taliad o £96 i Hacker Young am eu gwasanaethau archwilio allanol ar 1af o Orffennaf 2015.

PENDERFYNIAD –Diolchwyd i'r Clerc am ei gyfrifol ariannol ac am ei sylwadau

191.3 Cyflwynodd y Clerc gais am ei gyflog ar gyfer y chwe mis oedd yn do di ben ar 30ain o Fedi 2015. Cynghorwyd y ddau aelod newydd fod hanner ei gyflog fel arfer yn cael ei dalu yn y flwyddyn arainol flaenorol ac yna penderfyniad terfynol ar ei gyflog yn cael ei wneud yng nghyfarfod Tachwedd 2015/16. Y swm dalwyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf oedd £2259.20.

Eglurodd y Clerc ei fod wedi trefnu gyda Gwasanaeth Gwirfoddoli Sir Ddinbych eu bod yn prosesu ei daliadau cyflog. Roedd wedi ei gynghori byddai taliad o £60 y flwyddyn yn cael ei godi.

PENDERFYNIAD –Bod y Clerc yn derbyn taliad interim o £1130.00

191.4 Cyflwynodd y Clerc geisiadau am gymorth ariannol.

(a) Cyngor Gwirfoddoli sir Ddinbych – adnewyddu Aelodaeth.

(b) Ebst dderbyniwyd gan y Cynghorydd John Pugh am blannu blodau yn y Gofeb Rhyfel.

(c) Hosbis Sant Cyndeyrn.

PENDERFYNIAD –Gwneud y taliadau dilynol

(a) £15

(b) £120

(c) Gohirio'r cais nes cyfarfod mis Mawrth.

Penderfynodd yr aelodau ar newid polisi tuag at geisiadau am gymorth ariannol.

Nododd y Cadeirydd ei fod yn teimlo y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r gymuned leol wrth ystyried cymorth, roedd yr aelodau yn cytuno gyda'r farn hon. Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Steve Whipp a eiliwyd gan y Cynghorydd David Baker, cyflwynwyd y cynnig canlynol.

Bydd ceisiadau dderbyniwyd o fewn ardal y Cyngor Cymunedol yn cael eu hystyried ar eu teilyngdod wrth gael eu derbyn, bydd pob cais arall yn cael eu hystyried yng nghyfarfod mis Mawrth.

PENDERFYNIAD – ei gario yn unfrydol.

192. Dyddiad y cyfarfod nesaf **NEUADD ELEANOR AR DDYDD MERCHER 4YDD O DACHWEDD 2015 AM 7YH**

Nid oedd unrhyw faterion pellach, felly datganwyd y cyfarfod ar gau.

_____ Y CADEIRYDD

_____ DYDDIAD

**CYNGOR CYMUNED
LLANFAIR DYFFRYN CLWYD
COMMUNITY COUNCIL**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair D.C. nos Fercher, 4 Tachwedd 2015 am 7 o'r gloch.

Presennol:- Y Cynghorwyr Keith Mouldsdale (Cadeirydd), Gwyneth Griffiths (Is-gadeirydd), Steve Whipp, John Pugh, Jayne Mayers, Wini Davies, Medwen Roberts, Dennis Edwards, Tim Faire a'r Clerc.
Trigolion:- Ian Fleming a David Greenhalgh.

RHAN 1

YMDDIHEURIADAU – Y Cynghorydd David Baker

193. **COFNODION**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor ar 2 Medi 2015 a ddsbarthwyd yn flaenorol.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cofnodion a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

194. **MATERION YN CODI**

Ni chodwyd unrhyw faterion.

195. **GOHEBIAETH**

195.1 Derbyniwyd neges e-bost oddi wrth y Prif Arolygydd Neil Thomas, Heddlu Gogledd Cymru, yn gofyn am fanylion enwau Cynghorwyr, cyfeiriadau, cyfeiriadau e-bost (os yn berthnasol) a rhifau ffôn.

Pwrpas y cais yw sicrhau bod swyddogion a staff Heddlu Gogledd Cymru yn medru gweld yr wybodaeth ddiweddaraf fel a phan fo angen.

Roedd yr aelodau o'r farn fod y manylion y gofynnwyd amdanynt i'w cael ar wefan y Cyngor Cymuned a Chyngor Sir Ddinbych neu drwy ysgrifennu at y Clerc.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd John Pugh, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Jayne Mayers, fod y Clerc yn ysgrifennu at awdurdod yr heddlu i'w hysbysu fod yr wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus eisoes.

195.2 Derbyniwyd dau lythyr oddi wrth Darren Millar AC ar Wasanaethau Mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd a'r cynnig arfaethedig i gau Cartref Gofal Awelon yn Rhuthun.

195.3 Roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi gwahodd y Cadeirydd a'r Clerc i fod yn bresennol yn y cyfarfod blynyddol a oedd yn rhoi cyfle iddynt gwrdd â Chadeirydd, Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych. Y cyfarfod i'r gynnal nos Fercher, 25 Tachwedd.

Dywedodd y ddau nad oeddynt yn medru mynd i'r cyfarfod.

195.4 Estynnwyd gwahoddiad i'r Cadeirydd i fynd i'r Gwasanaeth Carolau blynyddol a drefnir gan Gadeirydd Cyngor Sir Ddinbych nos Fawrth, 8 Rhagfyr. Awgrymodd y Cadeirydd ei fod yn meddwl y byddai'n medru mynd i'r gwasanaeth hwn.

195.5 Derbyniwyd dau lythyr oddi wrth Ysgol Pentrecelyn yn diolch i'r Cyngor Cymuned am eu cyfraniad ariannol. Roedd un wedi'i lofnodi gan Gadeirydd y Llywodraethwyr a'r llall wedi'i lofnodi gan y disgyblion.

PENDERFYNWYD – Nodi'r ohebiaeth a'r sylwadau.

196. **CYNLLUNIO**

196.1 Cais 20/2015/0901 – Adeiladu estyniad unllawr yn y cefn – The Barn, Pentre Coch, Rhuthun.

Ystyriwyd y cais hwn gan y Cadeirydd a'r Cynghorwyr Dennis Edwards a David Baker. Roedd yr aelodau o blaid y cais.

PENDERFYNWYD – Cadarnhau'r gweithredu gan y Cadeirydd a'i gyd-Gynghorwyr.

196.2 Cais 20/2015/0815 – Gosod paneli solar ar bolion ar y ddaear – Llanbenwch, Llanfair Dyffryn Clwyd, Rhuthun.

Ystyriwyd y cais gan y Cadeirydd a'r Cynghorwyr Steve Whipp a John Pugh. Er eu bod yn cefnogi'r cais gwnaed y sylwadau isod gan y Cynghorydd Steve Whipp.

Es i ymweld â'r safle. Tra bo'r gwrychoedd ar eu huchder presennol ni fydd y paneli yn weladwy ar lefel y ddaear. Nid yw'r cais yn rhoi manylion ond rwy'n tybio y bydd y cebl cysylltu trydanol 90m wedi eu gladdu o dan y ddaear? Awgrymaf ein bod yn cefnogi'r cais hwn, ond yn trafod egwyddor paneli solar yn ein cyfarfod nesaf, gan y gallai nifer fawr ohonynt fod yn andwyol i amwynder gweladwy'r dyffryn.

Gwnaeth y Cynghorydd John Pugh sylwadau ar y safbwyntiau a fynegwyd gan y Cynghorydd Steve Whipp.

PENDERFYNWYD – Bod yr aelodau'n nodi sylwadau'r Cynghorwyr John Pugh a Steve Whipp ac yn cadarnhau'r gweithredu gan y Cadeirydd a'i gyd-Gynghorwyr.

197. **PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD**

197.1 Dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn neges e-bost oddi wrth y Cynghorydd Steve Whipp a oedd wedi derbyn y neges gan breswlydd lleol, Mr Cook, ynghylch gohebiaeth a anfonwyd at Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ynghylch goryrru a swm ar yr A525 yn Llanfair Dyffryn Clwyd.

Atgoffodd y Clerc yr aelodau am ohebiaeth flaenorol gyda Mr Ben R Wilcox-Jones, Cyngor Sir Ddinbych, ym mis Medi/Hydref 2013 ynghylch y broblem hon. Codwyd y mater y flaenorol gan y Cynghorydd Steve Whipp cyn ei benodi'r Gynghorydd Cymuned. Holodd y Clerc a oedd yr aelodau'n dymuno gofyn i Mr Wilcox-Jones ddod i'r cyfarfod ym mis Ionawr.

197.2 Diweddarodd y Clerc yr aelodau ynghylch problem cynnal a chadw'r llwybr ceffylau o Ysgol Llanfair i Fferm Bryn Obwst. Roedd swyddog yr awdurdod lleol wedi ei gynghori fod ei ddyletswyddau wedi eu cwtdogi i dridiau'r wythnos yn yr Uned Hawliau Tramwy oherwydd y toriadau. Roedd wedi datgan y byddai'n ymdrechu i **berswadio'r** ffermwr lleol i osod y craffion wyneb ffordd ar y llwybr.

197.3 Hysbysodd y Clerc ei fod wedi derbyn hysbysiad gan Gyngor Sir Ddinbych y byddai gwaith gosod wyneb newydd ar yr A525 i'r B5429 ac o Eyarth i Haymakers rhwng 30 Tachwedd 2015 ac 11 Rhagfyr 2015 a 6 Tachwedd 2015 a 20 Tachwedd 2015 yn ôl eu trefn.

197.4 Cynghorodd y Clerc yr aelodau ei fod wedi cysylltu â'r heddlu lleol yn gofyn am gael swyddog yn bresennol ar gyfer rheoli'r traffig ar 8 Tachwedd 2015, Sul y Cofio.

197.5 Gwnaeth y Cynghorydd Edwards sylw am glawr twll caead peryglus ar y bont ar yr Hen Dollffordd (Graigfechan i Landegla).

197.6 Gwnaed sylwadau am y broblem sbwriel yn Llanfair D.C. Roedd Mr David Greenhalgh yn meddwl y gellid trefnu i blant lleol ymgymryd â'r prosiect hwn.

PENDERFYNWYD – Nodi sylwadau'r Clerc a'r ohebiaeth.

Cofnod 197.1 Gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Mr Wilcox-Jones yn gofyn am ddiweddariad am y mesurau arafu traffig. Penderfynodd yr aelodau beidio â gofyn iddo fod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf.

Cofnod 197.2 Y Clerc i hysbysu'r Cynghorydd Sir Hugh Evans OBE os nad oes unrhyw gynnydd yn cael ei wneud gyda'r hwn.

Cofnod 197.5 Gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych ar y pwnc hwn.

RHAN 2

198. CYLLID

198.1 Cyflwynodd y Clerc ddatganiadau ariannol i'r aelodau ar gyfer y cyfnod ariannol 1 Ebrill 2016 i 31 Hydref 2015 ar gyfer y Cyfrifon Cyffredinol a Busnes.

Yn ei swyddogaeth fel Swyddog Ariannol Cyfrifol adroddodd fod balans y cyfrif cyffredinol yn uwch o **£1,130** oherwydd ei fod yn cael problemau gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn prosesu ei gyflog am y chwe mis yn diweddu 30 Medi 2015. Os nad oeddynt yn medru ymgymryd â'r dyletswydd hwn yna byddai'n ofynnol i'r Cyngor Cymuned wneud ei drefniadau ei hun gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i dalu'r dreth o dan reolau Talu wrth Ennill. Mynegodd yr aelodau eu pryder am y diffyg talu'r dreth incwm trwy Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych.

Cynghorwyd yr aelodau y byddent yn cael diweddariad ar y sefyllfa hon yn y cyfarfod nesaf.

198.2 Atgoffodd y Clerc yr aelodau eu bod wedi rhoi cyfraniad i Gangen Rhuthun y Llang Brydeinig yn ystod blynyddoedd blaenorol tuag at brynu torch ar gyfer Sul y Cofio. Cynigiodd y Cynghorydd John Pugh a'i eilio gan y Cynghorydd Jayne Mathers y dylid rhoi cyfraniad o **£200**.

Cytunodd yr aelodau'n unfrydol.

198.3 Derbyniwyd llythyrau'n gofyn am gymorth ariannol oddi wrth y Groes Goch Brydeinig, Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru a Hosbis Sant Cyndeyrn.

198.4 Adroddodd y Clerc ei fod wedi derbyn hysbysiad gan Swyddfa Archwilio Cymru fod archwilwyr allanol newydd wedi eu penodi ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2015/16, 2016/17 a 2018/19, sef BDO LLP.

198.5 Cyflwynodd y Clerc ffurflen hawlio costau teithio am fynd i gyfarfod Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn Neuadd y Dref y Fflint ar 10 Medi 2015, sef **£17.10**.

198.6 Cynghorodd y Clerc yr aelodau ei fod wedi derbyn anfoneb gan Mr Chris Birchall am waith i ddiweddaru'r wefan. Y cyfanswm oedd **£40**. Gan nad yw Mr Birchall yn derbyn taliad trwy siec dim ond PayPal roedd wedi ei dalu mewn arian parod.

Roedd y Clerc yn gofyn am ad-daliad yn awr.

198.7 Derbyniwyd neges e-bost oddi wrth Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol Rhuthun, Pwllglas a Chorwen yn gofyn am gymorth ariannol. Er bod yr aelodau wedi penderfynu'n flaenorol adolygu ceisiadau ym mis Mawrth 2016 roeddynt o'r farn fod y cais hwn yn haeddu sylw.

Cynigiodd y Cynghorydd John Pugh ac eiliwyd gan y Cynghorydd Jayne Mayers y dylid gwneud cyfraniad o **£500**.

Cytunodd yr aelodau'n unfrydol.

PENDERFYNWYD

Cofnod 198.5 Gwneud y taliad.

Cofnod 198.6 Gwneud y taliad.

Nodi sylwadau'r Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol.

199. ADOLYGIAD BLYNYDDOL — TÂL CLERC/SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL Y CYNGOR

Cynghorodd y Clerc fod ei gyflog ar hyn o bryd wedi'i seilio ar weithio 200 awr y flwyddyn. Gofynnodd i'r aelodau adolygu'r gwaith ychwanegol a oedd yn cael ei wneud erbyn hyn, ac i gynyddu'r lwfans am ddefnyddio ei gartref fel swyddfa o **£3** yr wythnos i **£4** yr wythnos.

Dylai'r cynnydd hwn fod wedi'i dalu rai blynyddoedd yn ôl.

Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Gorffennaf 2009.

PENDERFYNWYD

Gohirio'r mater hwn i gyfarfod mis Ionawr er mwyn i'r aelodau ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd gan y Clerc.

200. PRAESEPT 2016-17

Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol gynigion drafft ar gyfer 2016/17 i'r aelodau, ynghyd â manylion cymharu a ystyriwyd yn flaenorol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2015/16, 2014/15, 2013/14 a 2012/13.

Tynnodd sylw ei fod yn tybio y byddai etholiadau lleol yn cael eu cynnal ym mis Mai 2016. Felly roedd o'r farn ei bod yn ddarbodus cynnwys swm petai etholiad ar gyfer y Cyngor Cymuned. Wrth gwrs, penderfyniad i'r aelodau fyddai p'un ai y cynhelid etholiad ai peidio. Penderfynodd yr aelodau y dylai'r swm a nodwyd ar gyfer costau etholiad aros yn y ffigur praesept.

PENDERFYNWYD – Cynigiwyd gan y Cynghorydd John Pugh ac eiliwyd gan y Cynghorydd Gwyneth Griffiths godi praesept o **£8000.00** ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17. Cytunodd yr aelodau'n unfrydol.

Dyddiad y cyfarfod nesaf **NEUADD ELEANOR NOS FERCHER 6 IONAWR 2016 AM 7.00PM**

Gan nad oedd rhagor o fusnes cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

CADEIRYDD

DYDDIAD

**CYNGOR CYMUNED
LLANFAIR DYFFRYN CLWYD
COMMUNITY COUNCIL**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair D.C. ddydd Mercher, 6 Ionawr 2016 am 7 o'r gloch.

Presennol:- Y Cynghorwyr Keith Mouldsdale (Cadeirydd), Medwen Roberts, Dennis Edwards, John Pugh, Tim Faire, Steve Whipp, David Baker a'r Clerc.

Y Cynghorydd Sir Hugh H Evans OBE.

Stuart Pearson a Darren Murray. (Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol – Rhuthun a Phwllglas).

Trigolion:- David Greenhalgh ac Ian Fleming

RHAN 1

YMDDIHEURIADAU – Y Cynghorwyr Jayne Mayers a Wini Davies.

201. COFNODION

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor ar 4 Tachwedd 2015 a ddsbarthwyd yn flaenorol.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cofnodion a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

202. MATERION YN CODI

Cofnod 197.2. Roedd y Cyngorydd Sir Hugh H Evans o'r farn fod yr ymateb gan y Cyngor Sir yn annigonol ac ni ddylai fod yn esgus dros beidio â gwneud y gwaith hwn. Aeth ymlaen i ddweud bod cynnal a chadw llwybrau ceffylau yn digwydd trwy Gymru gyfan ac y dylid ei flaenoriaethu gan y Cyngor Sir. Roedd y Cyngorydd Steve Whipp o'r farn na ddylai'r Cyngor Cymuned ymgymryd â'r gwaith hwn, fel a awgrymwyd yn flaenorol gan y Cyngorydd John Pugh.

Cofnod 197.6 Dywedodd Mr David Greenhalgh ei fod wedi gwneud sylw y gallai plant lleol gymryd rhan mewn codi sbwriel, nid trefnu prosiect o'r fath.

PENDERFYNWYD – Nodwyd y sylwadau.

203. **CYFLWYNIAD GAN GYNRYCHIOLWYR YMATEBWYR CYNTAF CYMUNEDOL – RHUTHUN/PWLLGLAS**

Croesawodd y Cadeirydd Mr Stuart Pearson a Mr Darren Murray i drafod y gwaith a wneir gan y mudiad gwirfoddol hwn.

Amlinellwyd y gwaith gan gynghori'r aelodau eu bod yn cwmpasu ardal o tua wyth milltir o gwmpas Rhuthun a Phwllglas. Derbynnir galwadau o ganolfan yn Llanfairfechan a phan ar alwad mae pob gwirfoddolwr yn cario diffibriliwr. Mae cost yr offer dros **£1,500**. Mae'n rhaid i'r aelodau ddarparu eu dyfais llywio lloeren eu hunain, ynghyd â'r cerbyd a'r offer. Darperir yr hyfforddiant gan y Gwasanaeth Ambiwlans a gwnaethant ymateb i 145 o alwadau yn 2014. Hysbyswyd yr aelodau nad oedd y cyhoedd mor gyfarwydd â'r gwaith a wneir ganddynt o'i gymharu â'r Sefydliad Badau Achub a'r criwiau Achub Mynydd ac ati. Roedd y mudiad wedi bodoli ers pum mlynedd ac wedi gwneud cais am statws elusennol ac mae ganddynt broffil Trydar a Gweplyfr.

Dywedodd y Cyngorydd Sir Hugh Evans y byddai'n gwneud ymholiadau pellach ynghylch cael diffibriliwr y tu allan i fynedfa Neuadd y Sir.

Yna bu'r aelodau'n holi cwestiynau i'r gwesteion.

Yn dilyn cyflwyniad llawn gwybodaeth diolchodd y Cadeirydd i'r ddau am eu presenoldeb a'u cyflwyniad.

Ar ôl i'r dynion adael awgrymodd y Cyngorydd Sir Hugh H Evans fod y Cyngor Cymuned yn ystyried cydweithio â Chynghorau Cymuned cyfagos i brynu diffibriliwr.

PENDERFYNWYD – Ystyried yr awgrym hwn mewn cyfarfod diweddarach.

204. **GOHEBIAETH**

204.1 Dim ond pedair eitem oedd gan y Clerc i'w crybwyll, y pwysicaf ohonynt oedd llythyr oddi wrth y Cyngorydd Gwyneth Griffiths. Cynghorodd y Clerc ei bod hi wedi penderfynu rhoi'r gorau i fod yn Gynghorydd Cymuned, yn weithredol ar unwaith, oherwydd rhesymau personol.

204.2 Derbyniwyd llythyr oddi wrth gangen Rhuthun y Lleng Brydeinig yn diolch am y cyfraniad ariannol tuag at Apêl y Pabi Coch.

204.3 Cynghorodd y Clerc yr aelodau ei fod wedi derbyn cadarnhad gan Gyngor Sir Ddinbych fod cyfarfod y Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2015 wedi cadw at benderfyniad blaenorol i gau Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2017. Byddai ysgol newydd ar y safleoedd presennol yn cael ei hagor yn 2018 gydag un pennaeth.

204.4 Derbyniwyd llythyr oddi wrth Darren Millar AC yn rhoi diweddariad ynghylch yr ymgyrch i gadw gwasanaethau mamolaeth a merched dan arweiniad ymgynghorwyr yn Ysbyty Glan Clwyd.

PENDERFYNWYD – Nodi'r ohebiaeth.

Cofnod 204.1 Roedd y Cyngor Cymuned yn gresynu at ymddiswyddiad y Dirprwy Gadeirydd, y Cyngorydd Gwyneth Griffiths, ac yn dilyn cynnig gan y Cyngorydd John Pugh, wedi'i eilio gan y Cyngorydd Medwen Roberts, penderfynwyd gofyn i'r Clerc anfon llythyr ati yn gresynu am ei ymddiswyddiad ac yn diolch iddi am ei gwasanaeth a'i hymroddiad tra'n gynghorydd.

205. **CYNLLUNIO**

205.1 Cais 20/2015/1070 – Adeiladu estyniad deulawr i annedd - 6 Bron y Clwyd, Llanfair D.C., Rhuthun.

Ystyriwyd y cais hwn gan y Cadeirydd a'r Cyngorwyr Steve Whipp a Gwyneth Griffiths. Roedd yr aelodau'n cefnogi'r cais yn llwyr.

PENDERFYNWYD – Cadarnhau gweithredoedd y Cadeirydd a chyd-gynghorwyr.

205.2 Cais 20/2015/1053 – Pont i'w llenwi gyda cherrig a choncrid sbwng i ddarparu cynhaliaeth strwythurol a gwaith cysylltiedig – trosbont, Pwllglas – Rhuthun.

Ystyriwyd y cais hwn gan y Cadeirydd a'r Cyngorwyr Gwyneth Griffiths a Steve Whipp. Ni fynegwyd unrhyw wrthwynebiad gan y Cadeirydd na'r Cyngorydd Griffiths.

Cafwyd y sylwadau a ganlyn gan y Cyngorydd Whipp.

Bydd y cynnig i lenwi o dan y bont yn arwain at greu rhwystr/argae i lwybr anffurfiol, yn enwedig i fywyd gwyllt. Mae'r llwybr yr hen reilffordd yn ffurfio llwybr cyhoeddus y gellir mynd arno ym Mhont Eyarth ac sy'n mynd tua'r de orllewin ochr yn ochr â'r A494 a'r Afon Clwyd. Mae trac yn parhau, er nad yw'n llwybr cyhoeddus, y gellir ei ddefnyddio i gyrraedd y trac sy'n mynd dros y bont hon. Nid yw'n bosib i unigolion fynd ymhellach o dan y bont ond gall mamaliaid ac ymlusgiaid bychan fynd o dan y bont ar hyd y llwybr hwn. Bwriedir gosod tair pibell ddraenio 30000 HDPE o dan y bont wrth ei llenwi. Byddai'n dda o beth sicrhau bod mamaliaid bychan ac ymlusgiaid yn medru parhau i fynd o dan y bont heb unrhyw rwystr.

Darparodd y Cyngorydd Whipp adroddiad llafar pellach ar y cais hwn ynghyd â sylwadau pellach a wnaed gan Mr Ian Fleming.

206. **PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD**

206.1 Hysbysodd y Cyngorydd Steve Whipp yr aelodau am ei ohebiaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru, cyflymder a sŵn ar yr A525, arwyddion 20 milltir yr awr wrth yr ysgol a'r Grŵp Gwyllo Cyflymder Cymunedol. Cynghorodd y Cyngorydd Sir Hugh H Evans yr aelodau am y sefyllfa bresennol o ran mesurau arafu traffig ar gyfer Graigfechan.

206.2 Gwnaed sylwadau gan yr aelodau am arddulliau diffygiol trwy'r sir a dywedodd y Cyngorydd Tim Faire fod cyfrifoldeb ar dirfeddianwyr a cherddwyr hefyd.

206.3 Gwnaeth y Cadeirydd sylw ar y goeden Nadolig a leolir ger y Gofeb Ryfel yn arferol.

206.4 Yn dilyn lansio'r wefan newydd cyfeiriodd yr aelodau at y gwaith rhagorol a wnaed gan Mr Miles Anderson tra'n olygydd cylchgrawn y pentref.

PENDERFYNWYD-

Cofnod 206.1 Nododd yr aelodau y sylwadau gan y Cynghorydd Steve Whipp a'r Cynghorydd Sir Hugh H Evans.

Cofnod 206.3 Y Cyngor Cymuned i brynu coeden Nadolig ym mlynnyddoedd y dyfodol.

Cofnod 206.4 Gofyn i'r Clerc anfon llythyr at Mr Miles Anderson yn diolch iddo am fod yn olygydd cylchgrawn y pentref.

RHAN 2

207. CYLLID

207.1 Cyflwynodd y Clerc ddatganiadau ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2015 i 31 Rhagfyr 2015 i'r aelodau o ran y Cyfrif Cyffredinol a'r Cyfrif Busnes. Unwaith eto hysbyswyd yr aelodau ynghylch problemau talu treth incwm i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych.

207.2 Roedd y Clerc wedi derbyn anfoneb am **£277.13** gan y cyfieithydd am waith cyfieithu cofnodion Mai, Gorffennaf a Medi.

207.3 Roedd hysbysiad adnewyddu aelodaeth Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) am **£77** wedi ei dderbyn. Roedd y Clerc yn argymhell talu hyn.

PENDERFYNWYD

Cofnod 207.1 Diolchwyd i'r Clerc am ei adroddiad ariannol a'i sylwadau.

Cofnod 207.2 Gwneud y taliad am y gwaith cyfieithu.

Cofnod 207.3 Adnewyddu'r aelodaeth SLCC.

208. ADOLYGIAD BLYNYDDOL – TÂL CLERC/SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL Y CYNGOR

Atgoffodd y Clerc yr aelodau fod y mater hwn wedi'i ohirio o gyfarfod Tachwedd.

Cyflwynodd y Clerc ddogfennau dyddiedig 24 Mehefin 2009 ynghylch ei adolygiad cyflog bryd hynny, ynghyd â gwybodaeth wedi'i diweddarau dyddiedig 6 Ionawr 2016.

Cynghorwyd yr aelodau gan y Clerc ei fod wedi dechrau ar ei ddyletswyddau fel Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol ym mis Tachwedd 2003. Yn 2005 cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol yn ystod cyfarfod mis Mawrth ond newidwyd hynny i fis Tachwedd ymhob blwyddyn ariannol wedi hynny. Cytunodd yr aelodau fod y llwyth gwaith wedi cynyddu'n sylweddol ers ei benodi.

Hefyd gofynnodd y Clerc i'r aelodau ystyried cynyddu'r lwfans am ddefnyddio ei gartref fel swyddfa o **£3** i **£4** yr wythnos. Dywedodd y dylai fod wedi bod yn hawlio'r swm uwch ers blynyddoedd.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a gyflwynwyd iddynt penderfynodd yr aelodau ar y ffigwr o 300 awr y flwyddyn. Dylai'r taliad tuag at ddefnyddio ei gartref fel swyddfa gael ei gynyddu ac, yn y flwyddyn ariannol gyfredol yn diweddu 31 Mawrth, dylai cyflog y clerch barhau ar Bwynt Cyflog 25.

PENDERFYNWYD – Cynigiwyd gan y Cynghorydd John Pugh, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Dennis Edwards, dalu'r Clerc am weithio 300 awr y flwyddyn, cynyddu'r lwfans defnyddio'r cartref i **£4** yr wythnos a bod y cyflog yn parhau ar Bwynt Cyflog 25, sef **£11.296** yr awr. Y cynigion hyn i fod yn weithredol yn y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2016. Pasiwyd yn unfrydol.

Dyddiad y cyfarfod nesaf **NEUADD ELEANOR NOS FERCHER 11 MAI 2016 AM 7.00PM.**

Gan nad oedd rhagor o fusnes cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

**CYNGOR CYMUNED
LLANFAIR DYFFRYN CLWYD
COMMUNITY COUNCIL**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor, Llanfair DC nos Fercher, 2 Mawrth 2016 am 7 o'r gloch.

Presennol:- Y Cyngorwyr Keith Mouldale (Cadeirydd), Steve Whipp, John Pugh, Jayne Mayers, Wini Davies, Medwen Roberts, David Baker, Dennis Edwards, Tim Faire, Ben Wilcox-Jones a'r Clerc.

Trigolion:- Ian Fleming, David Greenhalgh, Tim Cook.

RHAN 1

YMDDIHEURIADAU – Y Cyngorydd Sir Hugh Evans OBE.

209. COFNODION

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd Eleanor ar 6 Ionawr 2016 a ddsbarthwyd yn flaenorol.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo'r cofnodion a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

210. MATERION YN CODI

210.1 Dan gofnod 197.6 nodwyd fod Mr David Greenhalgh wedi gwneud sylw fod plant o'r ysgol leol wedi bod yn codi sbwriel.

210.2 Nodwyd, yng nghyswllt cofnod 206.4 y cynigiwyd diolch i Mr Miles Anderson am ei waith yn y gorffennol yn darparu coeden Nadolig i'r pentref.

211. GOHEBIAETH

Nid oedd unrhyw ohebiaeth.

212. CYNLLUNIO

Nid oedd unrhyw faterion cynllunio.

213. PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD

Roedd Mr Ben Wilcox-Jones yn bresennol yn y cyfarfod. Cyfeiriodd Mr Wilcox-Jones at bryderon blaenorol yr oedd wedi eu clywed mewn cyfarfodydd blaenorol, yn enwedig ynghylch cerbydau'r goryrru trwy'r pentref. Esboniodd Mr Wilcox-Jones fod y Cyngor Sir wedi'i gyfyngu gan ddeddfwriaeth priffyrdd o ran y mesurau y gellir eu cyflwyno. Roedd Llanfair DC wedi ei chynnwys yn y cynllun i ledaenu'r ardaloedd 20 milltir yr awr a byddai arwyddion cynghori yn cael eu gosod yn y pentref ger yr ysgol, fel yr argymhellwyd gan yr Heddlu. Adroddwyd fod y rhain wedi eu rhoi yn eu lle yn ddiweddar ond eu bod wedi arwain at ddryswch i yrwyrr a oedd yn wynebu arwyddion gwrthgyferbyniol dros bellter byr.

Cynghorodd Mr Wilcox-Jones y byddai effaith yr arwyddion hyn yn cael eu monitro dros gyfnod o flwyddyn ac yna'n cael eu hadolygu. Pwysleisiodd Mr Wilcox-Jones fod y Cyngor Sir yn cydymdeimlo â'r problemau ac yn benderfynol o weithio gyda'r Cyngor Cymuned i weld beth oedd modd ei wneud. Hefyd cynghorodd am fenter Gwyllo Cyflymder Cymunedol gan Heddlu Gogledd Cymru. Dywedodd Steve Whipp ei fod wedi gwirfoddoli ac y byddai'n cael ei hyfforddi'n fuan.

PENDERFYNWYD – Nodi sylwadau'r Clerc a'r ohebiaeth.

Cofnod 213.1 Bod Mr Wilcox-Jones yn mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol fel bo'n briodol i roi diweddariad i'r cyngor.

RHAN 2

214. **CYLLID**

214.1 Cyflwynodd y Clerc y datganiad ariannol a ganlyn.

Datganiad ariannol y Clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol am y flwyddyn ariannol 2015/2016

	£	£
Cyflog fel y penderfynwyd – cyfarfod Ionawr 2016	3388.80	
Llai swm a dalwyd	Dim	3388.80
Defnyddio'r cartref fel swyddfa, fel y penderfynwyd Ion 16		208.00
Ad-daliad am bapur a nwyddau swyddfa		40.50
Ad-daliadau costau postio		21.14
	Cyfanswm	3658.44

PENDERFYNWYD – fod y Cyngor Cymuned yn cymeradwyo ac yn cytuno'r taliad fel y cynigiwyd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf **NEUADD ELEANOR NOS FERCHER 4 MAI 2016 AM 7.00PM**

Gan nad oedd rhagor o fusnes cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

CADEIRYDD

DYDDIAD